Mannon
Ar ran Achub Llanystumdwy **12 Rhagfyr 07**

Annwyl Gyfeillion,

Trefniant Ysgolion Cynradd

Diolch am eich llythyr manwl a deallus. Nid oes gennyf amser i'w ateb mewn manylder, ond gwnaf y pwyntiau canlynol:

- **O ran "derbyn" neu "nodi" credaf eich bod yn tueddu i wneud gormod o hyn, ond bydd yn gysur mae'n debyg ichi ddeall nad oes unrhyw gyfeiriad at "dderbyn" yn y cynnig fydd gerbron yfory, dim ond "cymeradwyo ymgynghori ar sail y ddogfen"**
- **Bydd y cynnig hefyd yn gofyn am asesiad ardrawiad ieithyddol a chymdeithasol**
- **Does neb yn credu y bydd arian SBIG yn uniongyrchol ddibynnol ar y nifer o ysgolion a gaeir, ond bydd yn hollol ddibynnol ar osod strategaeth glir sir-gyfan mewn lle**
- **Mae llawer o waith cyllidol wedi ei wneud, a bydd ffrwyth y gwaith hwnnw ar gael ichi dwi'n siwr os gofynnwch**
- **Ymhlith y papurau ar gyfer y Cyngor fory mae rhestr faith o atebion manwl i "gwestiynnau a ofynnir yn aml"**
- **Cytunwn yn llwyr fod gogwydd drefol i bolisi'r Cynulliad; mae hwn yn raddol newid, ond dal i frwydro yr ydym, (e.e. ymateb digalon o negyddol yr Arolygaeth i'n Cynllun Unedol yw'r frwydr nesaf)**
- **Os derbynnir y cynnig fory, bydd yna gyfnod pwysig o ymgynghori creadigol o'n blaenau, a disgwyliaf y bydd hynny'n rhwym o arwain at newidiadau yn y cynllun**
- **Y meddwl tu ol i'r cynlluniau yn ardal Cricieth oedd y gallai plant y dref a'r Llan fanteisio ar ysgol newydd o'r radd flaenaf, a honno wedi'i lleoli ar safle rhwng y dref a Llanystumdwy; ymddengys i mi nad oes llawer o archwaeth am hyn o du'r pentre, felly bydd angen chwilio am ateb arall.**
- **Mae gwaith yn cael ei wneud gan y Cynulliad ar fodel arall o ysgol ffederal a fydd yn caniatau mwy o ryddid , a sicrwydd, i bob uned o fewn y ffederaliaeth, ac yr ydym yn gefnogol iawn i hyn.**
- **Ar fater Tryweryn, credaf fod y gymhariaeth braidd yn amherthnasol, ond cofier hyn. Nid ysgol Capel Celyn oedd yr unig un i gau yn yr ardal honno yn y 60au, a sefydlwyd ysgol ardal Bro Tryweryn yn Frongoch, sy'n ysgol ardderchog, ac yn cael ei pherchnogi gan yr holl gymunedau o'i chwmpas hyd heddiw.**

Yr eiddoch yn gywir,

Dafydd Iwan, Uwch-Arweinydd Datblygu.